Yr Her £500

Cynulleidfa: disgyblion.
Amser: 1 Awr.
Niferoedd: Cyngor Ysgol neu Ddosbarth Cyfan.
Adnoddau: papur A4, catalogau o offer ar gyfer ysgolion, siswrn, glud.
Pwrpas: helpu'r cyngor ysgol i benderfynu ar beth i wario ei gyllideb.

Addasiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol.
Mae'r gweithgaredd hwn yn addas ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol, gyda help ac arweiniad priodol gan staff.

- Rhannwch y grwpiau/dosbarth yn grwpiau o 5/6.
- Bydd pob grŵp yn ymgymryd â rôl y Cyngor Ysgol.
- Dychmygwch fod y llywodraethwyr wedi rhoi cyllideb o £500 i'r Cyngor Ysgol ond ni all gael yr arian nes bydd yn rhoi ei syniadau i'r corff llywodraethol o ran ei wario.
- Rhowch bapur, rhywfaint o gatalogau a mynediad at y rhyngrwyd i bob grŵp er mwyn iddynt ganfod costau eitemau.
- Gofynnwch i bob grŵp benderfynu sut yr hoffent wario'r £500. Anogwch hwy i fod yn realistig. Gallant ei ddefnyddio i godi mwy o arian neu brynu pethau i'r ysgol. Rhowch 20 munud iddynt gwblhau'r dasg hon.
- Bydd pob grŵp yn rhoi "adroddiad" i'r llywodraethwyr (gweddill y grŵp) yn egluro sut y caiff yr arian ei wario.
- Bydd y "llywodraethwyr" yn codi materion ac os ydynt yn cytuno byddant yn rhyddhau'r arian.
- Mae'n rhaid i'r disgyblion gynllunio'r prosiect nawr. Gallai'r athro/athrawes gyflwyno 'problemau' megis llifogydd yn y ffreutur neu lawer o ffenestri wedi'u torri a gofyn i'r grwpiau ail-werthuso'u cynlluniau yng ngoleuni'r wybodaeth newydd.